# Grantiau cymunedol pymtheg mlwyddiant

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r rheolau a'r rheoliadau ar gyfer cynllun grantiau Cymru Masnach Deg Cymru, sy'n galluogi pobl ar draws Cymru i gael gafael ar gyllid i gefnogi cynlluniau i ddathlu 15 mlynedd ers i Gymru ddod yn Genedl Masnach Deg. Mae'r cynllun hwn yn cael ei weithredu fel rhan o bartneriaeth Hub Cymru Affrica, ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Elfennau allweddol y grantiau cymunedol pymtheg mlwyddiant:

- Bwriad y grantiau yw galluogi cymunedau ar draws Cymru i drefnu eu dathliad pymtheg mlwyddiant lleol eu hunain
- Gellid defnyddio'r cyllid ar gyfer llogi lleoliadau, arlwyo, cyfathrebu, cynhyrchion Masnach Deg, eitemau eraill neu gymorth a fydd yn eich galluogi i gynnal eich gweithgaredd dathlu. Does dim angen i'ch gweithgaredd fod yn ddigwyddiad.
- Os nad ydych yn siŵr p'un a fyddai eich cynllun yn gymwys i gael cyllid, cysylltwch â ni a gofynnwch - e-bostiwch gwyb@cymrumasnachdeg.org.uk gyda'ch cwestiwn.

**Meini prawf cyffredinol**

- Rhaid defnyddio'r cyllid grant i gefnogi, tyfu neu hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru
- Rhaid i'r gweithgaredd ddigwydd yng Nghymru
- Gall ceisiadau fod am unrhyw swm hyd at uchafswm o £500
- Rhaid i geisiadau ddangos gwerth am arian
- Mae pob cais yn destun datganiad gwrthdaro buddiannau
- Rhaid i'r holl weithgareddau ddigwydd erbyn 30 Medi 2024
- Rhaid gwario'r holl arian erbyn 30 Medi 2024

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fyddwn yn ariannu:

- Ymchwil Academaidd
- Rhoddion anghyfyngedig i bartneriaid eraill
- Teithio rhyngwladol, oni bai am ymweliad partner Masnach Deg
- Gweithrediadau dyngarol (gwaith cymorth brys)
- Gweithgareddau proselytio
- Gweithgareddau uniongyrchol er elw
- Eiriolaeth a gweithgareddau pleidiol wleidyddol
- Unigolion, grwpiau neu weithgareddau sy'n ceisio gwadu hawliau cyfartal
- Ni ddylai'r rheini sydd yn derbyn y grant fod yn fethdalwr neu gael euogfarn heb ei disbyddu

**Meini prawf dethol**

Byddwn yn ceisio asesu ceisiadau bob pythefnos. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau fydd 1 Mawrth 2024, neu nes bydd y gronfa grant yn cael ei defnyddio, p'un bynnag ddaw gyntaf.

Wrth asesu ceisiadau, byddwn yn ystyried y pwyntiau canlynol:

- Esboniad clir o'r hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud gyda'r grant a beth rydych chi'n disgwyl ei gyflawni
- Sut fydd y gweithgaredd yn dathlu ac yn hyrwyddo Masnach Deg
- Lledaeniad daearyddol eang o weithgareddau ar draws Cymru. Does dim angen gweithio gyda phartneriaid yn eich ardal leol, ond mae'n cael ei annog, gan y bydd yn ein helpu i ariannu gweithgareddau ar draws Cymru
- Gweithgareddau sy'n cydnabod ac yn dathlu cyfraniad gwirfoddolwyr i'r mudiad Masnach Deg
- Gweithgareddau sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd yng ngwerth Masnach Deg drwy weithgaredd dan arweiniad y gymuned
- P'un a yw ymgeiswyr yn dangos meini prawf moesegol, cynaliadwy a masnach deg wrth wneud penderfyniadau caffael

## Telerau ac amodau

O bryd i'w gilydd, gall Cymru Masnach Deg amrywio'r telerau ac amodau hyn, a bydd yn eich hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch unrhyw newidiadau.

Yn y Telerau ac Amodau hyn, mae "chi" yn golygu eich sefydliad, ac mae "cytundeb ysgrifenedig" yn cynnwys e-bost neu ohebiaeth electronig arall.

Os na fyddwch yn glynu at y telerau ac amodau hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhan neu'r cyfan o'r grant i Cymru Masnach Deg.

1. Rydych chi’n gyfrifol am weithio gyda Cymru Masnach Deg i sicrhau bod y gronfa'n cael ei gwario'n briodol, yn unol â'r telerau ac amodau hyn ac felly, mae'n rhaid i chi gynnal y gwiriadau diwydrwydd dyladwy priodol ar ddefnyddio'r gronfa.
2. Rhaid i chi adrodd i Cymru Masnach Deg ar wariant y gronfa, yn y cyfryw fformat ac ar adegau y gallai Cymru Masnach Deg ofyn amdanynt yn rhesymol, yn ogystal ag adrodd i Cymru Masnach Deg yn unol â'r telerau ac amodau hyn. Mae'n bosibl y bydd yr holl adroddiadau rydych yn eu darparu ar gyfer Cymru Masnach Deg yn cael eu hanfon i WCIA a Llywodraeth Cymru hefyd.
3. Rhaid i dderbynwyr grantiau ac unrhyw gyflenwyr maen nhw’n eu defnyddio sicrhau bod ganddynt yswiriant digonol ac asesiadau risg ar waith ar gyfer y gweithgareddau maen nhw’n cymryd rhan ynddynt.
4. Ni ddylid defnyddio'r gronfa at unrhyw ddiben a waherddir gan Cymru Masnach Deg. Gallwch weld rhestr o ddibenion a waherddir yn y meini prawf cymhwysedd uchod.

Os oes unrhyw amheuon ynghylch ble mae'r cyfrifoldeb, dylech gysylltu â Cymru Masnach Deg i drafod.

**Cadw Cofnodion a Monitro**

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, o leiaf 7 diwrnod cyn i'ch gweithgaredd ddigwydd, rhaid i chi anfon asesiad risg i Cymru Masnach Deg o'ch gweithgaredd, a dangos dealltwriaeth glir o'r risgiau dan sylw, gan gynnwys diogelu, a sut y byddwch yn delio â nhw.
- Os yw eich gweithgaredd wedi'i anelu at blant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed, rydym yn disgwyl i'ch asesiad risg ddangos y byddwch chi neu'ch sefydliad partner yn:
    - Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu diogelwch
    - Cael a gweithredu polisi ysgrifenedig priodol a set o weithdrefnau ar waith, i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed; ac
    - Ymgymryd â’r gwiriadau DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) sy'n angenrheidiol ar gyfer yr holl unigolion hynny y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith
    - Darparu copïau o bolisïau diogelu fel rhan o ddogfennaeth eich cytundeb cyllido.
- Ar ôl cwblhau'r prosiect, bydd angen taenlen wariant arnom, i ddangos sut rydych chi wedi gwario'r cyllid, ac adroddiad byr yn amlinellu'r gweithgaredd a'i ganlyniadau, gan gynnwys lluniau.
- Fel gofyniad cyfreithiol, rhaid i chi sicrhau eich bod chi’n cadw cofnodion ariannol cywir o sut mae’r gronfa’n cael ei gwario, gan gynnwys dogfennau perthnasol, am gyfnod o saith mlynedd ar

ôl i chi wario'r gronfa. Efallai y bydd Cymru Masnach Deg yn gofyn i gael gweld eich cyfrifon a chofnodion eraill fel rhan o archwiliad ariannol, a rhaid i chi gydweithredu gydag unrhyw gais o'r fath.

**Mae'n rhaid i chi roi gwybod i Cymru Masnach Deg ar unwaith os:**

1. Oes unrhyw newidiadau, cwynion, ymchwiliadau neu anawsterau sylweddol o fewn eich sefydliad a allai effeithio ar y gweithgareddau a ariennir
2. Y byddwch yn dod yn ymwybodol o, neu fod gennych chi unrhyw sail dros amau unrhyw dwyll, fater diogelu neu risg mewn perthynas â iechyd a diogelwch o fewn y gweithgareddau a ariennir
3. Nad ydych ch'n gallu cydymffurfio ag unrhyw un o'r telerau ac amodau hyn
4. Ydych chi neu unrhyw un o'ch gweithwyr yn destun ymchwiliad gan y Comisiwn Elusennau, yr Heddlu, neu gorff rheoleiddio arall
5. Ydych chi'n cau lawr neu'n uno â sefydliad arall os nad yw'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio bryd hynny.

**Talu'r arian**

Bydd Cymru Masnach Deg yn talu'r arian trwy drosglwyddiad BACS i'ch cyfrif banc, yn unol â'r amserlen talu fel y cytunwyd yn eich llythyr cynnig.

**Cydnabyddiaethau a Chyhoeddusrwydd**

Byddwch yn caniatáu i Cymru Masnach Deg a Llywodraeth Cymru ddefnyddio gwybodaeth am eich gwaith sydd yn cael ei ariannu fel sail ar gyfer astudiaethau achos, datganiadau i'r wasg a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol am y cynllun. Mae'n rhaid i chi weithio gyda Cymru Masnach Deg i sicrhau cynrychiolaeth a chyfryngau cadarnhaol ar gyfer Masnach Deg, a sicrhau eich bod chi'n cael caniatâd cyn rhannu lluniau. Mewn cytundeb â Cymru Masnach Deg, efallai y bydd yn rhaid i chi ddefnyddio logo Cymru Masnach Deg a logo Ariennir gan Llywodraeth Cymru fel rhan o'ch gweithgaredd dathlu.

**Hysbyseb preifatrwydd**

Mae'r grantiau'n cael eu darparu gan Cymru Masnach Deg fel rhan o bartneriaeth Hub Cymru Affrica, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Darllenwch yr hysbysiadau preifatrwydd perthnasol isod.

- Hysbysiad preifatrwydd Cymru Masnach Deg
- Polisi preifatrwydd WCIA (sefydliad lletya Hub Cymru Affrica)